Cyllid &
Thollau EM

# Bwletin y Cyflogwr

Eich llwybr i'r newyddion diweddaraf ynghylch y gyflogres

Rhagfyr 2019 Rhifyn 81

## Croeso

### Helo a chroeso i rifyn mis Rhagfyr o Fwletin y Cyflogwr

Mae gan y rhifyn hwn wybodaeth bwysig ynghylch y dyddiad cau ym mis Rhagfyr ar gyfer talu drwy ddull electronig, gwybodaeth am y newidiadau newydd i'r Cyfraddau Tanwydd Ymgynghorol ar gyfer defnyddwyr ceir cwmni yn ogystal â gwybodaeth am sut i gofnodi Benthyciadau Myfyrwyr/Benthyciadau Ôl-raddedig ar eich Cyflwyniad Taliadau Llawn yn gywir.

Mae yna hefyd nodyn i'ch atgoffa am gyflwyno gwybodaeth TWE mewn amser real pan fydd taliadau'n cael eu gwneud yn gynnar adeg y Nadolig. Byddwn yn eich annog yn gryf i'w darllen.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio Bwletin y Cyflogwr i roi gwybod i chi am gynhyrchion newydd a newidiadau a allai effeithio arnoch, a rhoi gwybodaeth bellach i chi os bydd ei hangen arnoch. Gyda hynny mewn golwg, hoffwn eich annog hefyd i gofrestru i gael e-bost hysbysu oddi wrthym bob tro y cyhoeddir rhifyn newydd o Fwletin y Cyflogwr. Nid yw'r system e-byst hysbysu ynghlwm wrth gyfeirnod TWE mwyach. Mae hyn yn golygu nid cyflogwyr yn unig sy'n gallu cofrestru, a does dim cyfyngiadau ar nifer yr unigolion fesul cwmni a all gael yr e-byst hysbysu.

Gallwch wneud yn siŵr nad ydych yn methu diweddariadau yn y dyfodol drwy gofrestru i gael e-byst hysbysu newydd. Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter @HMRC.gov.uk

Ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol arall yw'r diweddariadau i asiantau – bydd y rhifyn nesaf o'r diweddariadau i asiantau ar gael cyn bo hir a bydd yn rhoi arweiniad i asiantau ac ymgynghorwyr treth.

Ac yn olaf, ein nod yw gallu rhoi gwybodaeth glir, gyson ac amserol, sy'n addas i gyflogwyr, ac sy'n eich helpu i gyflawni'ch rhwymedigaethau cyflogres i CThEM. Felly, os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â chynnwys Bwletin y Cyflogwr, neu os hoffech iddo ymdrin â phwnc penodol, ysgrifennwch ataf yn scott.milne@hmrc.gov.uk Mae croeso mawr i'ch adborth bob amser.

*Scott*

**Scott Milne**
Golygydd

### Cynnwys

2 Arweiniad i gyflogwyr ar gyflwyno gwybodaeth TWE mewn amser real pan fydd taliadau'n cael eu gwneud yn gynnar adeg y Nadolig
2 Dyddiad cau ar gyfer talu trwy ddull electronig yn syrthio ar benwythnos
2 Cyfraddau Tanwydd Ymgynghorol o 1 Rhagfyr 2019 ymlaen
3 Cerbyd Allyriadau Isel Iawn
3 31 Ionawr yw'r dyddiad cau ar gyfer y Tâl Budd-dal Plant Incwm Uchel
3 Taliadau ar gyfer Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth
4 Y diweddaraf am Daliadau Terfynu: Cyflog Rhybudd Ôl-Gyflogaeth i gyflogwyr i gael ei dalu fesul rhandaliadau misol cyfartal
4 Eithriad ar gyfer Buddiannau Pitw - Cael pethau'n iawn
5 Cyfuno busnesau a newidiadau o ran perchnogaeth - yr hyn y mae angen i chi ei wneud
6 Pensiynau gweithle - cofiwch i dalu i mewn i gynllun yn rheolaidd
6 Pecynnau Cymorth - helpu i leihau gwallau
6 Benthyciadau Myfyrwyr/Benthyciadau Ôl-raddedig
6 Gwyliwr Bwrdd Gwaith TWE

# Arweiniad i gyflogwyr ar gyflwyno gwybodaeth TWE mewn amser real pan fydd taliadau'n cael eu gwneud yn gynnar adeg y Nadolig

Ym mis Rhagfyr 2018, gwnaethom ysgrifennu at gyflogwyr i awgrymu hawddfraint dros dro ar gyflwyno gwybodaeth TWE mewn amser real, gan ein bod yn gwybod bod rhai cyflogwyr yn talu eu cyflogeion yn gynt nag arfer dros gyfnod y Nadolig. Gall hyn fod am nifer o resymau, er enghraifft yn ystod cyfnod y Nadolig gallai'r busnes gau, sy'n golygu bod angen i weithwyr gael eu talu'n gynt na'r arfer.

Yn dilyn adborth gan gyflogwyr a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) rydym wedi cael cymeradwyaeth i wneud yr hawddfraint hon yn barhaol. Bydd arweiniad CThEM i gyflogwyr yn cael ei ddiweddaru'n fuan.

Os ydych yn talu'n gynnar dros gyfnod y Nadolig, rhowch eich diwrnod cyflog arferol (neu gontractiol) fel y dyddiad talu ar eich Cyflwyniad Taliad Llawn (FPS), a sicrhewch fod y Cyflwyniad Taliadau Llawn yn cael ei gyflwyno ar neu cyn y dyddiad hwn.

Er enghraifft: os ydych yn talu ddydd Gwener 20 Rhagfyr 2019 ond y dyddiad talu arferol/contractiol yw dydd Mawrth 31 Rhagfyr 2019, nodwch y dyddiad talu ar y Cyflwyniad Taliadau Llawn fel 31 Rhagfyr a sicrhewch fod y cyflwyniad yn cael ei anfon ar neu cyn 31 Rhagfyr.

Bydd gwneud hyn yn helpu i amddiffyn cymhwystra'ch cyflogeion ar gyfer Credyd Cynhwysol, gan y gall nodi'r diwrnod cyflog fel y dyddiad talu effeithio ar hawliau cyfredol ac yn y dyfodol.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn yn effeithio ar y rhwymedigaeth adrodd TWE bennaf ar gyfer cyflogwyr, ac mae'n dal yn rhaid i chi adrodd taliadau ar neu cyn y dyddiad y mae'r cyflogai'n cael ei dalu, h.y. y diwrnod cyflog.

# Dyddiad cau ar gyfer talu trwy ddull electronig yn syrthio ar benwythnos

Ym mis Rhagfyr mae'r dyddiad cau ar gyfer talu trwy ddull electronig, sef yr 22ain, ar ddydd Sul. Felly, er mwyn sicrhau bod eich taliad ar gyfer y mis hwn yn ein cyrraedd mewn pryd, bydd angen bod gennych arian wedi'i glirio yng nghyfrif banc CThEM erbyn yr 20fed, oni bai eich bod yn gallu trefnu talu gan ddefnyddio'r gwasanaeth Taliadau Cyflymach.

Cofiwch mai'ch cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich taliadau'n cael eu gwneud mewn pryd, ac os yw'ch taliad yn hwyr mae'n bosibl y codir cosb arnoch.

Er mwyn eich bod yn gwybod pa ddyddiad i gychwyn eich taliad, ac i wneud yn siŵr y byddwn yn ei gael mewn pryd, bydd yn rhaid i chi gysylltu â'ch banc/cymdeithas adeiladu mewn da bryd cyn gwneud eich taliadau er mwyn gwirio terfynau trafodion unigol, terfynau gwerth dyddiol a thorbwyntiau.

Mae rhagor o wybodaeth am ein talu drwy ddull electronig ar gael yma.

# Cyfraddau Tanwydd Ymgynghorol o 1 Rhagfyr 2019 ymlaen

Os ydych yn defnyddio car cwmni, sylwer bod rhai newidiadau wedi bod i'r Cyfraddau Tanwydd Ymgynghorol ers 1 Rhagfyr 2019. Nid oes unrhyw newid wedi bod i'r Gyfradd Drydanol Ymgynghorol ar gyfer ceir sy'n gwbl drydanol. Bydd y cyfraddau i gyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac maent ar gael yma.

# Cerbyd Allyriadau Isel Iawn

Yn Rhifyn 80 o Fwletin y Cyflogwr gwnaethom roi gwybod i chi am y newidiadau arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gerbydau Allyriadau Isel Iawn o 6 Ebrill 2020 ymlaen. Ailddarllenwch yr wybodaeth hon.

### Sut mae hyn yn effeithio arnoch:

**Rhoi gwybod am gar cwmni newydd, neu un sydd ar gael i unigolyn am y tro cyntaf, yn ystod blwyddyn dreth 2020/2021.**

O 6 Ebrill 2020 ymlaen, bydd maes milltiroedd allyriadau sero newydd wedi'i nodi ar ffurflen P46(Car). Os oes gan gar ffigur allyriadau $CO_2$ sy'n 1-50g/km, bydd yn rhaid i chi nawr roi milltiroedd allyriadau sero'r car. Dyma'r pellter mwyaf mewn milltiroedd y mae'n bosibl gyrru'r car yn y modd trydan heb ailwefru'r batri.

### Talu buddiant car cwmni a buddiant tanwydd car drwy'r gyflogres

O 6 Ebrill 2020 ymlaen, os oes gan gar ffigur allyriadau $CO_2$ sy'n 1-50g/km, bydd yn rhaid i chi nawr roi milltiroedd allyriadau sero'r car yn y maes newydd sydd ar gael.

Bydd rhagor o wybodaeth am y newidiadau arfaethedig, a lle i ddod o hyd i'r wybodaeth hon, ar gael yn y dyfodol agos.

# 31 Ionawr yw'r dyddiad cau ar gyfer y Tâl Budd-dal Plant Incwm Uchel

Oes gennych unrhyw gyflogeion sydd ag incwm o dros £50,000? Mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddynt dalu tâl treth, sef y Tâl Budd-dal Plant Incwm Uchel os ydyn nhw neu eu partner yn cael Budd-dal Plant.

Os yw'ch cyflogeion yn agored i dalu'r tâl, efallai y bydd angen iddynt gyflwyno Ffurflen Dreth cyn y dyddiad cau, sef 31 Ionawr.

Gall rhoi gwybod i'ch cyflogeion am y Tâl Budd-dal Plant Incwm Uchel eu helpu i ddeall beth yw eu rhwymedigaethau ac osgoi cael cosb.

Dylai pobl sy'n ennill dros £50,000 wneud y canlynol:

- gwirio'u hincwm blynyddol naill ai ar eu P60 neu ar eu cyfrif treth personol
- cynnwys unrhyw fuddianau trethadwy, er enghraifft yswiriant meddygol, car cwmni neu lety, yn eu hincwm
- defnyddio'r gyfrifiannell treth budd-dal plant
- i osgoi cosb, mae'n rhaid rhoi gwybod i CThEM, cofrestru ar gyfer Hunanasesiad, cyflwyno Ffurflen Dreth 2018 i 2019 cyn 31 Ionawr 2020 a thalu'r hyn sy'n ddyledus.

Mae Budd-dal Plant yn parhau i fod yn fudd-dal cyffredinol. Mae'n bwysig fod rhieni'n llenwi ffurflen hawlio Budd-dal Plant fel nad ydynt yn colli allan ar gredydau Yswiriant Gwladol, sy'n helpu i amddiffyn eu Pensiwn y Wladwriaeth.

Gallant ddewis peidio â hawlio taliadau Budd-dal Plant fel na fyddant yn gorfod talu'r tâl ar gyfer blynyddoedd treth y dyfodol, ond byddant yn dal i gael credydau Yswiriant Gwladol.

Ceir rhagor o wybodaeth am Fudd-dal Plant yma.

# Taliadau ar gyfer Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth

Rydym wedi rhoi gwybod i chi sut y gall Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth helpu'ch cyflogeion gyda chostau gofal plant, ond a oeddech yn gwybod ein bod hefyd wedi'i gwneud hi'n gyflymach i rieni i dalu am y gofal plant y maent yn ei ddefnyddio?

Er enghraifft, os yw rhiant yn talu blaendal i'w gyfrif Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth drwy drosglwyddiad banc neu archeb sefydlog:

- dylai gymryd dim ond **2 awr** i'r taliad gyrraedd ei gyfrif gofal plant
- byddwn yn ychwanegu unrhyw '**taliadau atodol**' gan y llywodraeth yn awtomatig
- gall ddefnyddio'r arian i dalu ei ddarparwr gofal plant cyn gynted ag y bydd yn ymddangos fel '**arian sydd ar gael**'.

Os yw rhiant yn talu ei ddarparwr gofal plant:

- cyn **14:30**, bydd yn cyrraedd cyfrif ei ddarparwr ar yr un diwrnod
- ar ôl **14:30**, neu ar y penwythnos neu ar ŵyl banc, bydd yn cyrraedd ei gyfrif y diwrnod gwaith nesaf.

Rydym yn gwybod bod rhai rheini'n dal i fod ar eu colled o ran Gofal Plant sy'n Rhydd o Dreth. Byddem yn croesawu'ch cymorth wrth newid hynny, felly rhowch wybod i'ch cyflogeion am Ofal Plant sy'n Rhydd o Dreth heddiw.

# Y diweddaraf am Daliadau Terfynu: Cyflog Rhybudd Ôl-Gyflogaeth i gyflogwyr i gael ei dalu fesul rhandaliadau misol cyfartal

Yn rhifyn mis Hydref 2019 o Fwletin y Cyflogwr cyhoeddwyd cyfrifiad gwahanol o'r Cyflog Rhybudd Ôl-Gyflogaeth, a'r amgylchiadau lle gellid ei ddefnyddio. Mae'r amgylchiadau lle gellid defnyddio'r cyfrifiad gwahanol fel a ganlyn:

- pan fo cyfnod cyflog olaf y cyflogai sy'n berthnasol i gyfrifiad y Cyflog Rhybudd Ôl-Gyflogaeth yn fis; a
- pan gaiff cyflog y cyflogai ei dalu fesul 12 rhandaliad misol cyfartal, ond
- pan nodir mai nifer cyfan o ddyddiau neu wythnosau yw rhybudd y cyflogai

Y bwriad oedd y byddai'r cyfrifiad arall ar gael i'w ddefnyddio mewn unrhyw achos lle bo'r cyflogai'n cael ei dalu fesul rhandaliadau misol cyfartal ac nid yw amodau Adran 402D(6) o ITEPA 2003 yn cael eu bodloni. Roedd geiriad gwreiddiol y consesiwn hwn yn cyfyngu gormod ac nid oedd yn adlewyrchu bwriad CThEM. Mae arweiniad wedi'i ddiweddaru ar gael erbyn hyn yn EIM13886.

---

# Eithriad ar gyfer Buddiannau Pitw – Cael pethau'n iawn

Yn dilyn ein herthyglau ynghylch Buddiannau Pitw yn y ddau rifyn blaenorol o Fwletin y Cyflogwr, dyma ychydig o awgrymiadau ar sut i weithredu'r rheolau'n gywir.

Cofiwch y rheolau, sef:

- Rhaid i gost y buddiant beidio â bod dros £50;
- Rhaid i'r buddiant beidio â bod yn arian parod neu'n daleb y gellir ei chyfnewid am arian;
- Ni ddylid rhoi'r buddiant fel rhan o drefniadau aberthu cyflog nac unrhyw rwymedigaeth gontractiol arall; ac
- Ni ddylid rhoi'r buddiant i gydnabod gwasanaethau penodol.

### Awgrym 1 – Rhwymedigaeth gontractiol arall

Gall rhwymedigaethau contractiol fod ar sawl ffurf, felly dylid darllen yr ymadrodd yn eang i gynnwys unrhyw beth y byddai'r llysoedd yn ei ystyried yn gytundeb contractiol, er enghraifft:

- Ystlyslythyr i'r prif gontract
- Llawlyfr staff
- Llythyr o apwyntiad
- Cytundeb diswyddo
- Cytundeb undeb cyflogwyr
- Unrhyw ddisgwyliad dilys.

Efallai y bydd 'disgwyliad dilys' yn berthnasol hyd yn oed pan nad oes rhwymedigaeth gontractiol lem. Er enghraifft, efallai y rhoddir cacen hufen i'ch cyflogeion bob dydd Gwener. Er nad oes unrhyw rwymedigaeth gontractiol, byddai disgwyliad dilys – mae'ch cyflogeion yn disgwyl cael cacen hufen bob dydd Gwener.

Mae rhagor o wybodaeth am rwymedigaethau contractiol yn EIM12976. Er bod hyn yn ymwneud yn benodol â "taliadau terfynu", mae CThEM yn derbyn bod hyn hefyd yn berthnasol i'r eithriad ar gyfer buddiannau pitw.

### Awgrym 2 – Llwyfannau digidol

Os ydych yn talu am 'ap' sy'n galluogi i'ch cyflogeion gyrchu cynhyrchion neu wasanaethau â disgownt y mae'r cyflogai wedyn yn talu amdanynt, nid y cynhyrchion na'r gwasanaethau gwirioneddol a roddir gan y llwyfan digidol yw'r buddiant a roddir gennych, er enghraifft rhoi cyngor meddygol neu alw tacsi. Y buddiant yw'r **gallu i gyrchu'r 'ap' ei hun**.

Er mwyn i'r eithriad fod yn gymwys, mae'n rhaid i gyfanswm cost rhoi'r 'ap' beidio â bod yn fwy na £50, yn ogystal â bodloni'r holl reolau a nodir uchod.

Fodd bynnag, os ydych yn talu am y cynhyrchion neu'r gwasanaethau a geir gan eich cyflogeion, dylid ystyried cyfanswm y gost at ddibenion 'y buddiant'. Er enghraifft, os codir £49 y sesiwn arnoch am gyngor meddygol a geir drwy ap, unwaith y bydd cyflogai'n cael mwy nag un sesiwn o gyngor meddygol yn ystod y flwyddyn, nid yw'r buddiant ar gyfer y cyflogai hwnnw bellach yn bitw at ddibenion gwneud cais am yr eithriad hwn. Mae hyn oherwydd y bydd cost y buddiant yn fwy na £50. Mae rhagor o wybodaeth yn EIM21865.

Mae'r un peth yn berthnasol ar gyfer 'ap' galw tacsis. Os ydych yn rhoi'r gallu i gyflogai gyrchu'r gwasanaeth ac yn talu am bob taith, unwaith y bydd teithiau busnes y gellir eu didynnu wedi'u dileu, dylid ychwanegu cost y teithiau sy'n weddill at ei gilydd, gan gynnwys unrhyw gost sy'n gysylltiedig â darparu'r 'ap', a'r cyfanswm sy'n cael ei drin fel '**y buddiant**'. Cofiwch y dylid defnyddio **cost 'y buddiant' dros y flwyddyn** i benderfynu a yw'r eithriad yn berthnasol. Dyma'r pwynt a wneir yn Enghreifftiau D, E ac F o arweiniad CThEM y cyfeirir ato uchod.

### Awgrym 3 – Gwasanaeth penodol

Os yw buddiant wedi'i roi i gyflogai fel gwobr am wasanaeth, neu oherwydd ei fod yn cydnabod rhywbeth y bu'n rhaid iddo wneud fel rhan o'i ddyletswyddau cyflogaeth, ni fydd y buddiant yn gymwys fel buddiant pitw.

Er enghraifft, efallai y bydd cyflogwr yn gofyn i rai o'i gyflogeion weithio drwy'u hawr ginio ac yn rhoi cinio iddynt. Mae pryd wedi'i roi oherwydd y gwaith y maent yn ei wneud. Nid yw'r buddiant yn bodloni'r amod ar gyfer buddiannau pitw, felly ni fydd yr eithriad yn berthnasol. Mae rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau i'w cael yn EIM21868.

Dylech ddilyn holl reolau'r eithriad a chael y dreth yn gywir fel eich bod chi a'ch cyflogeion yn elwa.

# Cyfuno busnesau a newidiadau o ran perchnogaeth – yr hyn y mae angen i chi ei wneud

Pan fydd busnes yn ymuno ag un arall neu'n newid perchnogaeth, bydd angen i chi, fel cyflogwr, gysylltu â CThEM i gadarnhau a ddylech drin y newid busnes fel cyfuniad neu ddilyniant. Bydd CThEM yn rhoi gwybod i chi ba gyfeirnod cyflogwr i'w ddefnyddio, neu efallai y bydd yn rhoi un newydd i chi.

Mewn nifer fach o achosion, ar ôl i gyflogai symud i gyfeirnod cyflogai newydd oherwydd newid busnes, mae CThEM wedi nodi bod manylion tâl a threth blaenorol ar y cofnod cyflogres newydd yn anghyflawn. O ganlyniad, rhoddwyd codau treth newydd yn seiliedig ar wybodaeth anghywir a all achosi anawsterau ariannol i'ch cyflogai wrth i'w gofnod gael ei gywiro. Os yw'ch busnes yn cyfuno neu'n newid perchnogaeth, bydd angen i chi ddilyn y camau a nodir isod er mwyn sicrhau bod holl fanylion cyflogres y cyflogai'n cael eu trosglwyddo i'r busnes newydd.

### Os yw CThEM yn rhoi cyfeirnod cyflogwr newydd i chi, neu os yw'r cyflogai'n symud i gyflogres newydd yn eich sefydliad gyda chyfeirnod cyflogwr newydd, dylech wneud y canlynol:

Anfon Cyflwyniad Taliadau Llawn gyda manylion gadael, gan gynnwys y ffigurau tâl a threth hyd yma ar gyfer y cyfeirnod cyflogwr y mae'r cyflogai'n symud ohono. Ni fydd angen i chi roi P45 i'r cyflogai sy'n cael ei effeithio, ond bydd angen i chi roi'r manylion tâl a threth iddo, hyd at y dyddiad y gwnaeth symud i'r cyfeirnod cyflogwr newydd.

Unwaith y byddwch yn fodlon bod y Cyflwyniad Taliadau Llawn ar gyfer y cyflogai sydd wedi gadael wedi'i anfon i CThEM yn llwyddiannus, gallwch anfon y Cyflwyniad Taliadau Llawn cyntaf ar gyfer y cyfeirnod cyflogwr newydd. Dylech ailgychwyn y gyflogaeth ar gyfer pob cyflogai sydd wedi cael ei effeithio drwy nodi'i ffigurau hyd yma fel sero a chynnwys gwybodaeth y cyflogai. Cofnodwch y dyddiad cychwyn ar gyfer y gyflogres newydd, gan nodi ar y datganiad ar gyfer cyflogeion newydd C ar gyfer codau BR neu godau sy'n dechrau gyda D, a B ar gyfer unrhyw god arall.

Pan fyddwch yn gweithredu'r gyflogres newydd, bydd yn rhaid i chi gyfrifo a didynnu TWE a CYG o unrhyw daliadau a wnewch i'r cyflogai a gafodd ei drosglwyddo, o'r dyddiad y gwnaeth symud cyflogres. Os ydych yn defnyddio cod treth cronnus, defnyddiwch y manylion tâl a threth o'r hen gyfeirnod cyflogwr.

Mae'n rhaid cyflwyno'r Cyflwyniad Taliadau Llawn olaf o'r hen gyfeirnod cyflogwr cyn y Cyflwyniad Taliadau Llawn cyntaf ar gyfer y cyfeirnod cyflogwr newydd.

Os na allwch wneud hyn, bydd angen i chi gysylltu â Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM.

Os yw'r cyflogai wedi cael, neu'n parhau i gael, buddiannau cwmni yn dilyn newid yn y gyflogres, mae'n rhaid i chi gyflwyno ffurflenni P11D/P11D(b) o dan y cyfeirnod cyflogwr newydd. Anfonwch P11D ar gyfer pob cyflogai sy'n cael buddiant cwmni. Mae'n rhaid i'r P11D/P11D(b) gynnwys yr holl wybodaeth o'r hen gyfeirnod cyflogwr, yn ogystal â'r un newydd.

### Os yw'r cyflogai'n symud i gyflogres newydd o dan yr un cyfeirnod cyflogwr, dylech wneud y canlynol:

Parhau i weithredu TWE a rhoi gwybod am eich gwybodaeth gyflogres o dan yr un cyfeirnod cyflogwr.

Cyflwyno un P11D ar gyfer pob cyflogai sy'n cael buddiannau cwmni o dan yr un cyfeirnod cyflogwr.

Bydd arweiniad CThEM yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

# Pensiynau gweithle - cofiwch i dalu i mewn i gynllun yn rheolaidd

Mae mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn cynilo arian i'w pensiynau gweithle diolch i'r system cofrestru awtomatig (AE). Mae cyflogwyr wedi dodi 10 miliwn o aelodau staff i mewn i gynlluniau pensiwn ers i'r system cofrestru awtomatig ddechrau, sy'n rhyfeddol – ond nid yw eu dyletswyddau cyfreithiol yn gorffen yno.

Mae cyflogwyr yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y swm cywir o gyfraniadau pensiwn yn cael eu talu i mewn i gynllun yn brydlon.

Nid yw'n ddigon i gofrestru'ch cyflogeion ar gyfer cynllun a stopio yno – mae angen i chi barhau i dalu bob tro yr ydych yn rhedeg y gyflogres. Nid yn unig hynny, ond mae'r gyfraith yn gosod isafswm o 3% o enillion gros y cyflogai i gyflogwyr dalu i mewn i gynllun. Gallwch dalu mwy na hyn os dymunwch, ond ni allwch dalu llai na hyn.

Fel cyflogwr, dylech wneud yn siŵr bod aelodau'n cael y cyfraniadau sy'n ddyledus iddynt. Mae angen i chi nodi taliadau hwyr neu wallus yn gynnar – bydd y Rheoleiddiwr Pensiynau'n cymryd camau os byddwch yn methu â chydymffurfio â'ch dyletswyddau cyfreithiol parhaus, ac efallai y bydd angen i chi ôl-ddyddio unrhyw daliadau a gollwyd. Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth.

# Pecynnau Cymorth - helpu i leihau gwallau

Mae cadw cofnodion cywir yn helpu i sicrhau y gellir anfon y data cywir i CThEM erbyn y dyddiadau cau a lleihau'r oedi wrth dalu.

Mae'n bosibl y byddwch am lawrlwytho'r pecyn cymorth ynghylch cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Thaliadau Statudol. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys adrannau cynhwysfawr sy'n rhoi sylw i feysydd fel CYG Dosbarth 1 a thaliadau statudol.

Mae'r pecyn cymorth treuliau a buddiannau ar gyfer cyflogaeth yn rhoi cymorth pellach i gyflogwyr. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys adrannau am gerbydau, teithio, cynhaliaeth ac adloniant, biliau personol a defnyddio neu drosglwyddo asedion. Mae gennym hefyd adran newydd am drefniadau tâl opsiynol.

Mae'r pecynnau cymorth wedi'u cynllunio i helpu asiantau ac ymgynghorwyr, ond rydym yn gobeithio y byddant yn ddefnyddiol i chi hefyd.

# Benthyciadau Myfyrwyr/Benthyciadau Ôl-raddedig

Yn Rhifyn 78 o Fwletin y Cyflogwr gwnaethom roi gwybod i chi am Fenthyciadau Myfyrwyr/Benthyciadau Ôl-raddedig. Mae'n bwysig eich bod yn gweithredu'r trothwy a'r gyfradd Benthyciad Myfyrwyr a/neu Fenthyciad Ôl-raddedig cywir ar gyfer eich cyflogai, a'ch bod yn cofnodi hyn yn gywir ar eich Cyflwyniad Taliadau Llawn.

Gallai gweithredu'r Math anghywir o Fenthyciad neu Gynllun arwain at ddidyniadau nad ydynt yn ddyledus yn cael eu cymryd oddi ar eich cyflogai.

Gallwch ganfod pa fath o Fenthyciad neu Gynllun sydd gan eich cyflogai drwy wneud y canlynol:

- gofyn i'ch cyflogai. Os nad yw'ch cyflogai yn gwybod pa fath o Fenthyciad neu Gynllun sydd ganddo, gall wirio yma
- gwirio'r wybodaeth a roddir gan eich cyflogai ar y Rhestr Wirio ar gyfer Cyflogeion sy'n Cychwyn
- gwirio'r:
  - Benthyciad Myfyrwyr – Hysbysiad Dechrau (SL1)
  - Benthyciad Ôl-raddedig – Hysbysiad Dechrau (PGL1).

Mae'n bosibl y bydd CThEM yn cysylltu â chi i ofyn i chi roi'r gorau i wneud didyniadau o dan y math anghywir o fenthyciad neu gynllun, ac i gywiro'r wybodaeth ar eich cyflwyniad cyflogres nesaf.

# Gwyliwr Bwrdd Gwaith TWE

Yn anffodus, ni chafodd y Gwyliwr Bwrdd Gwaith TWE (PDV) ei ddiweddaru yn ôl y disgwyl, ac fel yr hysbysebwyd yn rhifyn mis Hydref o Fwletin y Cyflogwr. Mae CThEM yn ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra y gallai hyn fod wedi ei achosi.

Nid oes disgwyl i'r Gwyliwr Bwrdd Gwaith TWE nesaf gael ei ryddhau tan rywbryd yn y Flwyddyn Newydd; yn y cyfamser, bydd y fersiwn gyfredol o'r Gwyliwr Bwrdd Gwaith TWE yn parhau i weithredu fel arfer.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi, drwy Fwletin y Cyflogwr, pryd bydd y fersiwn nesaf ar gael.